





| Login | Neges |
|---|---|
| **Dyfs**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:07**<br>Dw i'n blino ar glywed pobl yn cwyno dro ar ôl tro bod y teledu'n ddrwg i bobl ifanc. Mae llawer o bethau ardderchog ar y bocs - rhaglenni cerddoriaeth a dramâu, er enghraifft, ac wrth gwrs chwaraeon, chwaraeon, chwaraeon. Rydyn ni'n ddigon cyfrifol ac aeddfed i beidio â gadael i'r teledu ddylanwadu arnon ni. |
| **Ifs**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:07**<br>Dw i'n cytuno i raddau, ond cofia mae'r teledu'n effeithio ar rai pobl ifanc. Maen nhw'n edrych ar selebs ac yn dymuno bod fel nhw. Mae'r rhan fwyaf o'r actoresau poblogaidd heddiw'n denau - yn denau iawn ac mae merched yn teimlo dan bwysau i fod fel nhw - sy'n wirion! Mae hyn yn gallu arwain at fynd ar ddiets eithafol a phroblemau bwyta ofnadwy. Mae rhai bechgyn hefyd yn ceisio bod fel actorion neu chwaraewyr cyhyrog, cryf. Maen nhw'n hyfforddi ac yn hyfforddi er mwyn ceisio magu cyhyrau ac mae rhai hyd yn oed yn cymryd cyffuriau. Mae hyn yn beryglus iawn. Maen nhw'n wallgof - dylen nhw gael mwy o barch tuag atyn nhw eu hunain. |
| **Rhian**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:12**<br>Mae Ifs yn llygad ei le! Mae ceisio copïo pobl eraill yn wirion! Dylai pobl ifanc gofio mai rhywbeth allanol yw pryd a gwedd rhywun - sut mae rhywun yn edrych. Beth sydd ar y tu mewn sy'n bwysig. |
| **Lloyd**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:15**<br>A sôn am beth sy ar y tu mewn (!), mae cwmnïau mawr yn gwybod pryd a sut i farchnata, on'd ydyn nhw. Ydych chi wedi cael eich temtio i fwyta siocled wrth wylio opera sebon sy'n cael ei noddi gan gwmni siocled? Dw i wedi sawl gwaith! |
| **Rhian**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:17**<br>Nid sôn am y bol oeddwn i! Roeddwn i jyst eisiau dweud bod pethau pwysicach na sut mae rhywun yn edrych, e.e. pa fath o bobl ydyn nhw, beth yw eu gwerthoedd nhw, sut maen nhw'n ymddwyn at bobl eraill ac ati. Pethau fel 'na sy'n bwysig - nid sut mae rhywun yn edrych. |
| **Lloyd**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:19**<br>Dw i'n gwybod hynny! |
| **Beth**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:28**<br>Mae'r teledu - a'r cyfryngau'n gyffredinol - yn gallu effeithio ar sut mae pobl yn ymddwyn. Mae arbenigwyr yn dweud bod gwylio gormod o raglenni gyda thrais ynddyn nhw - neu chwarae gemau cyfrifiadurol gyda thrais ynddyn nhw - yn gallu gwneud pobl yn ymosodol - yn enwedig plant. Mae rhai pobl wedi ymosod ar bobl eraill - a hyd yn oed wedi lladd - ar ôl gweld trais ar y teledu. |
| **Lyn**<br> | Postiwyd ar **10 Hydref 2012** am **19:35**<br>Mae rhyfeloedd yn cael eu dangos fel adloniant weithiau. Mae llawer o bobl yn mwynhau ffilmiau rhyfel. Alla i ddim credu hynny! Mae rhyfel yn beth ofnadwy. |